Newid bywydau pobl ifanc drwy chwaraeon

STREET GAMES



# LLEISIAU IEUENCTID STREETGAMES

## MANIFFESTO IEUENCTID



www.streetgames.org

A registered charity



# CRYNODEB GWEITHREDOL

Mae etholiadau Senedd 2026 yng Nghymru yn gyfle hollbwysig yng ngwleidyddiaeth Cymru i bobl ifanc a chymunedau lleol helpu i lunio polisi cyhoeddus i gefnogi eu hanghenion a'u dyheadau'n well.

Mae StreetGames yn bodoli i gefnogi pobl ifanc sy'n byw mewn cymunedau heb wasanaeth digonol i gael mynediad mwy cyfartal at y manteision y gall bywyd chwaraeon llawn a bywyd corfforol egnïol eu dwyn i'w cyfleoedd bywyd. Ochr yn ochr â'n rhwydwaith o dros 250 o sefydliadau lleol y gellir ymddiried ynddynt yng Nghymru, rydym yn ceisio ehangu lleisiau pobl ifanc o'r cymunedau hyn i gael eu clywed a'u grymuso.

Mae StreetGames wedi cefnogi tîm o Ymgynghorwyr Ifanc i ddatblygu Maniffesto'r Bobl Ifanc i godi ymwybyddiaeth o faterion oedd yn bwysig iddyn nhw. Defnyddion nhw wybodaeth helaeth a gasglwyd gan bobl ifanc cyn etholiad cyffredinol 2024. Yna ychwanegon nhw wybodaeth ychwanegol gan bobl ifanc Cymru i ddeall y materion allweddol maen nhw'n eu hwynebu heddiw yng Nghymru.

Hoffem ddiolch i'r holl bobl ifanc a'n helpodd gyda'r gwaith hwn, ac yn benodol i Derek Walker, swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, am eu cefnogaeth.

**Crynodeb o ofynion allweddol i bleidiau gwleidyddol gan bobl ifanc sy'n byw mewn cymunedau heb wasanaeth digonol yng Nghymru:**

## LLEOEDD DIOGEL

Gwneud yn siŵr bod asedau cymunedol lleol - fel canolfannau ieuenctid a mannau awyr agored - ar agor ac yn cael eu cynnal a'u cadw fel bod gan bobl ifanc le i fynd iddo lle maen nhw'n teimlo'n ddiogel gyda'u ffrindiau y tu allan i oriau ysgol.

## GWIRFODDOLI

Mae gwirfoddolwyr yn sicrhau bod gweithgaredd yn digwydd. Mae angen polisïau arnom sy'n hyrwyddo gwirfoddoli ac yn cryfhau'r cysylltiadau rhwng cyflogwyr lleol, y system addysg a sefydliadau a chlybiau cymunedol. Mae angen i gyfleoedd fod wedi'u diogelu rhag tlodi ac yn hygyrch i bawb.

## LLESIANT MEDDYLIOL

Yn ogystal â gwasanaethau gwell, mae hyn hefyd yn ymwneud â dealltwriaeth ehangach o'r hyn a all helpu, fel darparu mwy o leoedd diogel i bobl ifanc fynychu, a sicrhau bod gweithgareddau fforddiadwy rheolaidd i bobl ifanc gymryd rhan ynddynt ar draws pob cymuned.

## MYNEDIAD AT CHWARAEON A GWEITHGARWCH CORFFOROL

Gwyddom fod gan chwaraeon a gweithgarwch corfforol fanteision enfawr i bobl ifanc a chymunedau, a gall mynediad mewn llawer o gymunedau fod yn wael iawn.

Mae angen i'r llywodraeth ganolbwyntio ar hyn fel blaenoriaeth, ac i ddarparu cefnogaeth ar gyfer pethau sylfaenol fel cit ac offer, sesiynau hyfforddi, a lleoedd diogel agored y tu hwnt i'r diwrnod ysgol.

## TRAFNIDIAETH

Dylai trafnidiaeth fod am ddim i bobl ifanc – yn enwedig o ddydd Llun i ddydd Gwener – ni ddylech orfod talu i fynd i'r ysgol na'r Chweched Dosbarth. Byddai hyn hefyd yn lleihau'r rhwystr ariannol sy'n wynebu pobl ifanc a theuluoedd wrth geisio cael mynediad at lawer o chwaraeon a gweithgareddau corfforol.





# SUT Y LLUNIWYD Y MANIFFESTO

Yn gyntaf, ystyriwyd y wybodaeth a ddefnyddiwyd yn 2024 ar gyfer etholiad cyffredinol y DU, gan fod gan gynnwys hyn gysylltiadau clir â meysydd polisi a ddatganolwyd i Lywodraeth Cymru. Teimlwyd, er na fyddai angen diystyru'r holl wybodaeth hon, fod angen i ni wirio a herio'r canfyddiadau i a) sicrhau ei bod yn gyfredol, a b) cael ffocws clir ar yr hyn sy'n bwysig i bobl ifanc Cymru.

Rhannwyd arolwg byr ar-lein gyda sefydliadau cymunedol yn rhwydwaith StreetGames yng Nghymru, gyda'r nod o gael clywed cymaint o leisiau pobl ifanc â phosibl. Roedd yr arolwg byr hwn yn cynnwys tri chwestiwn agored a oedd yn gysylltiedig â phryderon, dyheadau a gofynion pobl ifanc o'r llywodraeth. Cynhaliwyd grwpiau ffocws, gan ddefnyddio canllaw pwnc lled-strwythuredig, fel rhan o'r broses hon a galluogi sefydliadau cymunedol i ymgysylltu ac archwilio materion gyda'u pobl ifanc ar lefel ddyfnach. Hwylusodd StreetGames hefyd nifer o grwpiau ffocws pobl ifanc ychwanegol o bob cwr o Gymru.

Yna, recriwtiodd StreetGames bump o bobl ifanc o'r rhwydwaith i fod yn Ymgynghorwyr Ifanc a'u cefnogi i ddadansoddi data'r arolwg a'r grŵp ffocws i nodi themâu allweddol a throi'r rhain yn 'ofynion allweddol' i'r pleidiau gwleidyddol, yn y cyfnod cyn etholiad Cymru.

Yna daeth yr Ymgynghorwyr Ifanc ynghyd am ddiwrnod yng Nghaerdydd, lle gwnaethant gyflwyno'r canfyddiadau allweddol i Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, sy'n eiriol dros bobl ifanc mewn cymunedau heb wasanaeth digonol.

Dangosodd canlyniadau'r ymgynghoriad fod pobl ifanc yng Nghymru yn wynebu heriau tebyg i'w cyfoedion yng ngweddill y DU – roedd y themâu a oedd fwyaf cyffredin o'r canfyddiadau yn cwmpasu materion yn ymwneud â: diffyg mynediad at chwaraeon, lleoedd diogel a chyfleoedd gwirfoddoli, mwy o gefnogaeth llesiant meddyliol a'r angen i wella/gwneud trafnidiaeth leol yn fwy hygyrch.

# DEMOGRAFFEG A DATA

## 300 O BOBL IFANC

(mae hyn wedi'i gyfuno â'r 212 o ymatebion a gawsom i'r arolwg)

**10** GRŴP FFOCWS = **88** O BOBL IFANC

# DEMOGRAFFEG Y GRWPIAU FFOCWS

Drwy gydol y grwpiau ffocws, ymgynghorwyd ag amrywiaeth o bobl ifanc. Roedd yr oedrannau hyn yn amrywio o 11 i 24 oed.

### RHYW

| | |
|---|---|
| 53% | Gwrywaidd |
| 44% | Benywaidd |
| 3% | Anneuaidd |

### ANABLEDD

| | |
|---|---|
| 5% | Anabl |
| 58% | Ddim yn anabl |
| 37% | Ansicr |

### ETHNIGRWYDD

| | |
|---|---|
| 95% | Gwyn |
| 2% | Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig |
| 2% | Du, Du Prydeinig, Caribïaidd neu Affricanaidd |
| 1% | Somali/ Bangladeshi/ Pacistani/ Prydeinig |

# DEMOGRAFFEG YR AROLWG

| | |
|---|---|
| 10% | 8 i 11 |
| 51% | 12 i 14 |
| 32% | 15 i 18 |
| 8% | 19 i 24 |

### RHYW

| | |
|---|---|
| 51% | Gwrywaidd |
| 48% | Benywaidd |
| 1% | Anneuaidd |

### ANABLEDD

| | |
|---|---|
| 17% | Anabl |
| 74% | Ddim yn anabl |
| 9% | Ansicr |

### ETHNIGRWYDD

| | |
|---|---|
| 94% | Gwyn |
| 1% | Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig |
| 1% | Du, Du Prydeinig, Caribïaidd neu Affricanaidd |
| 0% | Grwpiau ethnig cymysg neu luosog |





# DYFYNIADAU GAN BOBL IFANC

## PAM LLEOEDD DIOGEL

DW I'N TEIMLO'N ANNIOGEL YN YR AWYR AGORED OHERWYDD POBL SY'N GAETH I GYFFURIAU.

DW I EISIAU CYMDEITHASU GYDA FFRINDIAU, MEWN AMGYLCHEDD DIOGEL DAN DO.

MAE LLE DIOGEL YN RHOI RHYWLE I MI FYND GYDA FY FFRINDIAU. GALLAF FWYNHAU FY HUN AC MAE'N RHOI CYFLE I MI YMLACIO HEB BOD ANGEN POENI AM YR HYN SY'N DIGWYDD.

MAE'N FY NGHADW ODDI AR Y STRYDOEDD – DOES GEN I UNMAN I FYND.

DOES GENNYM NI DDIM UNMAN ARALL I FYND – MAE LLE DIOGEL YN EIN HELPU I WELD EIN FFRINDIAU A THEIMLO'N DDIOGEL AR YR UN PRYD. PWY ARALL SY'N MYND I OFALU AMDANOM NI OS NAD YDYM NI GYDA'N GILYDD.

MAE LLEOEDD DIOGEL YN CANIATÁU I FENYWOD A MERCHED FOD YN RHYDD.

MAE'N HELPU MWY O BOBL IFANC I DEIMLO'N GYFFORDDUS I GYMRYD RHAN MEWN GWEITHGAREDDAU.

## PAM GWIRFODDOLI

BYDD YN EIN HELPU I GAEL SWYDDI YN Y DYFODOL.

MAE'N GWELLA HYDER AC MAE'N DDA I WELLA SGILIAU CYMDEITHASOL AR GYFER SWYDDI.

MAE'N HELPU CYMUNEDAU I DDARPARU PROFIADAU GWELL I BOBL IFANC.

BYDDEM WRTH EIN BODD YN GWIRFODDOLI, OND MAE'N ANODD IAWN DOD O HYD I GYFLEOEDD.

MAE'N RHOI CYFLE OS NAD YW'R YSGOL AR EIN CYFER NI.

MAE'N EIN HATAL RHAG MYND I LAWR Y LLWYBR ANGHYWIR.

MAE'N ALLFA I BOBL IFANC, AC YN RHOI CYFLEOEDD I NI NAD YDYM YN YMWYBODOL OHONYNT.





## PAM MYNEDIAD AT CHWARAEON

MAE LLAI O LEOEDD I FYND IDDYN NHW A THREULIO AMSER GYDA FY FFRINDIAU. ONI BAI AM Y CLWB IEUENCTID YMA, NI FYDDAI GENNYM NI DDIM BYD.

MAE EIN HOLL DRIPIAU GYDA'N CLWB IEUENCTID – DW I HEFYD WRTH FY MODD YN CHWARAE TENIS BWRDD A DYMA'R UNIG LE Y GALLAF FYND IDDO.

DYDYN NI DDIM YN DEFNYDDIO'R GANOLFAN HAMDDEN OHERWYDD... MAE'N RHY DDRUD, MAE'N RHY BELL I FFWRDD, DOES GEN I DDIM Y CIT/ OFFER CYWIR, DYDW I DDIM YN GWYBOD PA WEITHGAREDDAU SYDD YNO, DYDW I DDIM YN DDIGON HYDERUS A DOES DIM BYD YNO SYDD O DDIDDORDEB I MI.

## TRAFNIDIAETH

DYDY FY FFRINDIAU DDIM YN GALLU FFORDDIO'R BWS YSGOL, FELLY DYDYN NHW DDIM YN MYND I'R CHWECHED DOSBARTH MWYACH.

MAE TRAFNIDIAETH GYHOEDDUS YN RHY DDRUD.

MAE'N RHAID I NI ADAEL Y CLWB IEUENCTID YN GYNNAR I WNEUD YN SIŴR EIN BOD NI'N CAEL Y BWS ADREF - MAE'N CYMRYD 2 AWR.

MAE BYSUS YN AFREOLAIDD A DYDYN NI DDIM EISIAU SEFYLL AC AROS YN Y TYWYLLWCH.



## LLESIANT MEDDYLIOL

MAE ANGEN MWY O BOBL I DDOD I YSGOLION A CHLYBIAU IEUENCTID I RANNU GWYBODAETH AM BLE GALLWN NI FYND.

MAE ANGEN MWY O LEOEDD I WNEUD GWEITHGAREDDAU I GEFNOGI EIN HIECHYD MEDDWL, YN HYTRACH NA SIARAD AMDANO.

RYDYM EISIAU LLE I FYND LLE NAD YDYM YN TEIMLO EIN BOD YN CAEL EIN BARNU.

RYDYM EISIAU LLE DIOGEL I FYND IDDO.

MWY O LEOEDD LLE GALLWN SIARAD Â PHOBL.

MAE'N IAWN GOFYN AM GYMORTH – PAM EI FOD YN DAL I FOD YN BWNC TABŴ?

MAE ANGEN I NI WYBOD PA GYMORTH SYDD AR GAEL I NI.

# GOFYNION ALLWEDDOL I'R LLYWODRAETH

## LLEOEDD DIOGEL

Gwneud yn siŵr bod asedau cymunedol lleol - fel canolfannau ieuenctid a mannau awyr agored - ar agor ac yn cael eu cynnal a'u cadw fel bod gan bobl le lle maen nhw'n teimlo'n ddiogel i fynd iddo gyda'u ffrindiau y tu allan i oriau ysgol.

Mae cael y bobl gywir i gefnogi sesiynau yn gwneud i bobl ifanc deimlo'n ddiogel - gweler Cynhwysion Chwaraeon ar Stepen Eich Drws sy'n gysylltiedig â'r 'Pum Hawl' am ragor o wybodaeth.


## GWIRFODDOLI

Mwy o gefnogaeth i ddeall manteision gwirfoddoli i bobl ifanc.

Cyflogwyr a sefydliadau lleol i gefnogi ysgolion/clybiau ieuenctid/sesiynau chwaraeon ar garreg y drws i ddarparu profiadau sy'n cefnogi pobl ifanc gyda llwybrau a sgiliau i gyflogaeth.

Darparu profiadau gwaith mwy cynhwysol sy'n ystyrlon ac sydd wedi'u diogelu rhag tlodi. E.e. cefnogi pobl ifanc gyda chostau ymlaen llaw, fel teithio, cit, offer, bwyd, yn hytrach na system ad-dalu.

Darparu buddion cyffredinol i bobl ifanc sy'n gwirfoddoli, e.e. pasys i'r gampfa, cludiant am ddim, talebau prydau bwyd.







## LLESIANT MEDDYLIOL

(fel uchod) Darparu mwy o leoedd diogel i bobl ifanc fynychu, gallai hyn gynnwys lleoedd fel lleoliadau cymunedol, parciau lleol, clybiau ieuenctid, mannau dan do gydag oedolyn y gellir ymddiried ynddo/ arweinydd cymunedol.

Cynyddu'r ddarpariaeth hyfforddiant i uwchsgilio mwy o'r gweithlu y tu allan i leoliadau ysgol, fel canolfannau ieuenctid i gefnogi pobl ifanc fel y gallant gefnogi a chyfeirio pobl ifanc yn well mewn perthynas â llesiant meddyliol.

Sicrhau bod negeseuon iechyd meddwl a gwasanaethau cymorth yn cael eu cyflwyno mewn ffordd y bydd pobl ifanc yn ei derbyn, gan gynnwys defnyddio cyfryngau cymdeithasol trwy negeseuon byr, miniog, ar TikTok, Instagram, YouTube Reels ac ati.

## MYNEDIAD AT CHWARAEON A GWEITHGARWCH CORFFOROL

Cynyddu cyllid i gymunedau dan anfantais i gefnogi mynediad at ddarpariaeth chwaraeon lleol OND defnyddio lleisiau pobl ifanc i gyd-ddylunio cynigion deniadol.

Dod â mwy o chwaraeon i bobl ifanc mewn cymunedau lleol – e.e. gwneud mwy o ddefnydd o gyfleusterau ysgolion a dod â chwaraeon atyn nhw gan fod hyn yn lleihau costau trafnidiaeth a bwyd i bobl ifanc os ydynt eisoes yno.

Darparu cyllid ar gyfer cit/offer. Cefnogi mentrau lleol fel yr ystafell citiau ym Mlaenau Gwent, lle mae pobl yn rhoi cit ac mae gan unrhyw un fynediad iddo.

Ymgorffori cynlluniau peilot fel addysg weithredol y tu hwnt i'r diwrnod ysgol – rhoi'r gorau i wneud pethau untro! Mae hyn yn fwy niweidiol i bobl ifanc.

## TRAFNIDIAETH

Darparu cludiant am ddim i bobl ifanc o ddydd Llun i ddydd Gwener i'w cefnogi i fynd i'r ysgol/gwaith/gwirfoddoli/ clybiau ieuenctid/chwaraeon ac ati.

Dylai cludiant fod am ddim i bobl ifanc – ni ddylech orfod talu i fynd i'r ysgol – gyda rhai pobl ifanc yn methu â pharhau â'u hastudiaethau i'r Chweched Dosbarth gan fod bysiau a ariennir wedi'u hatal.

Newid bywydau pobl ifanc drwy chwaraeon

www.streetgames.org

